Help gyda chostau tai

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

A yw hyn yn berthnasol i mi?

Mae costau tai yn rhan fawr o gostau byw y rhan fwyaf o bobl. Os ydych ar incwm isel, p'un a ydych yn gweithio neu beidio, gall fod yn anodd talu'r costau hyn.

Os oes gennych rent neu forgais i'w dalu, mae'r daflen hon yn dweud wrthych am y cymorth y gallwch ei gael.

Cynnwys

Os ydych yn talu rhent 4
Os ydych yn talu morgais 8
Os ydych yn talu treth cyngor 10
Sut i wneud cais? 12
Sut i wneud cais am help gyda'ch morgais? 16
Os ydych ar fin rhentu tŷ newydd 17
Newidiadau yn eich amgylchiadau 19
Cwestiynau eraill a allai fod gennych 22
I gael rhagor o wybodaeth 25

Os ydych yn talu rhent

Pa help y gallaf ei gael os wyf yn talu rhent?

Os ydych ar incwm isel, p'un a ydych yn gweithio neu beidio, mae'n bosibl y gallech gael yr help canlynol.

- Gall Budd-dal Tai helpu tuag at eich rhent.
- Gall Budd-dal Treth Cyngor helpu tuag at eich treth cyngor (gweler tudalen 10).

Nid oes rhaid i chi fod yn cael unrhyw fudd-daliadau eraill i gael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor. Telir y budd-daliadau hyn gan eich cyngor lleol.

Gallwch hefyd wneud cais i'r cyngor i gael help ychwanegol gyda chostau tai. Gelwir yr help ychwanegol hwn yn 'Taliad Tai Dewisol'. Y cyngor fydd yn penderfynu p'un a fydd yn talu Taliad Tai Dewisol i chi ai peidio.

I gysylltu â'ch cyngor lleol ewch i:

www.direct.gov.uk/cy

neu edrychwch ar ei fanylion yn y llyfr ffôn

Beth yw Budd-dal Tai?

Mae Budd-dal Tai yn arian i helpu i dalu rhywfaint o'ch rhent os ydych ar incwm isel. Caiff ei dalu gan eich cyngor, p'un a ydych yn talu rhent i:

- landlord preifat
- cymdeithas tai, neu
- hostel neu westy bach.

Os ydych yn rhentu tŷ cyngor, defnyddir eich budd-dal gan y cyngor tuag at dalu eich rhent.

A allaf gael Budd-dal Tai?

Efallai y gallwch gael Budd-dal Tai os ydych:

- ar incwm isel
- nad oes gennych lawer o arian wedi'i gynilo, ac
- rydych yn gorfod talu rhent.

Hyd yn oed os ydych yn gweithio, efallai y gallwch gael rhywfaint o help cyn belled y bydd yr uchod yn berthnasol.

Nid ydych yn debygol o gael Budd-dal Tai os ydych:

- o dan 60 oed ac mae gennych gynilion dros £16,000
- yn fewnfudwr anghyfreithlon, 'arhoswr dros amser' neu'n geisiwr lloches
- yn cael nawdd i fod yn y DU (hynny yw, mae cyflogwr yn eich cefnogi chi fel y gallwch fyw a gweithio yn y DU)
- yn byw gydag aelod agos o'ch teulu, neu
- yn fyfyriwr llawn amser (oni bai eich bod yn anabl neu fod gennych blant).

Nid yw Budd-dal Tai yn talu tuag at forgeisi ac fel arfer nid yw'n cwmpasu taliadau gwasanaeth.

Y Deyrnas Unedig (DU)

Mae hyn yn golygu Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ond nid Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw

Sut y caiff fy Mudd-dal Tai ei weithio allan?

Bydd eich cyngor yn edrych ar:

- yr arian a gewch chi a'ch partner (fel enillion, pensiynau, rhai budd-daliadau a chredydau treth), ac
- unrhyw gynilion sydd gennych chi a'ch partner.

Hefyd, byddant yn edrych ar:

- eich oedran
- faint o'r bobl sy'n byw gyda chi sydd yn eich teulu a beth yw eu hoedran
- a oes unrhyw un yn eich teulu sy'n byw gyda chi yn anabl, ac
- a allai unrhyw un sy'n byw gyda chi helpu gyda'r rhent.

Hefyd, byddant yn edrych i weld bod swm y rhent rydych yn ei dalu'n deg ar gyfer y math o gartref sydd gennych a'r ardal lle mae eich cartref.

Yna gall eich cyngor weithio allan faint o Fudd-dal Tai y gallwch ei gael. Os bydd unrhyw wybodaeth y mae penderfyniad y cyngor yn seiliedig arni yn newid, mae angen i chi roi gwybod i'r cyngor. Gallai effeithio ar swm y budd-dal y gallwch ei gael.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

A oes terfyn i faint y gallaf ei gael?

Dim ond swm o rent sy'n rhesymol ym marn eich cyngor y byddant yn ei dalu ar gyfer rhywun yn eich sefyllfa chi ac sy'n byw yn eich ardal chi.

Mae rheoliadau yn cyfyngu ar y swm o Fudd-dal Tai y gellir ei dalu. Efallai na fydd yn cwmpasu eich rhent cyfan os bydd:

- eich cartref yn fwy nag y disgwylir sydd ei angen ar gyfer y nifer o bobl sy'n byw yno (gan ystyried eu hoedran, rhyw a statws iechyd), neu
- eich costau tai yn uwch na chost cartref addas arall yn yr ardal.

Sut y caiff Budd-dal Tai ei dalu?

Os ydych yn rhentu gan y cyngor, byddwch yn talu llai o rent.

Os ydych yn rhentu gan landlord preifat neu gymdeithas tai, efallai y cewch arian i'ch helpu i dalu rhent i'ch landlord. Gellir ei dalu:

- i mewn i'ch cyfrif banc
- drwy siec, neu
- ffordd arall mae'r cyngor yn ei ddewis.

Os ydych o'r farn na allwch ymdopi â'ch rhent, gallwch ofyn i'r cyngor dalu eich landlord yn uniongyrchol. Efallai y bydd y cyngor yn gwneud hyn beth bynnag os na fyddwch yn talu'ch rhent yn brydlon.

I gysylltu â'ch cyngor lleol ewch i:

www.direct.gov.uk/cy

neu edrychwch ar ei fanylion yn y llyfr ffôn

Os ydych yn talu morgais

Pa help y gallaf ei gael os wyf yn talu morgais?

Os ydych ar incwm isel, efallai y gallwch gael y canlynol.

- Budd-dal Treth Cyngor i'ch helpu i dalu eich treth cyngor (gweler tudalen 11). Nid oes rhaid i chi gael unrhyw fudd-daliadau eraill i gael Budd-dal Treth Cyngor. Caiff ei dalu gan eich cyngor.
- Arian ychwanegol gyda rhai budd-daliadau i'ch helpu i dalu'r llog ar eich morgais, neu rai benthyciadau gwella'r cartref neu daliadau gwasanaeth ar gyfer eiddo ar brydles.

A allaf gael help gyda llog fy morgais?

Gallech gael help gyda llog eich morgais os byddwch yn cael:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Credyd Pensiwn, neu
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, fel arfer dim ond help i dalu llog eich morgais y gallwch ei gael ar ôl i fod yn hawlio'r budd-dal am 39 o wythnosau. (Bydd hyn yn newid i 13 wythnos o fis Ebrill 2009.)

Os ydych yn cael Credyd Pensiwn, efallai y byddwch yn gymwys i gael help tuag at eich costau tai o ddechrau eich hawliad.

Os gallwch gael yr help hwn, ni fydd yn cwmpasu'ch holl gostau morgais. Bydd yn helpu i dalu tuag at y llog. Ni fydd yn cwmpasu:

- premiymau ar gyfer unrhyw yswiriant sy'n gysylltiedig â'ch morgais neu'ch cartref
- unrhyw ôl-ddyledion morgais (symiau y dylech fod wedi'u talu eisoes)
- unrhyw ran o forgais na ddefnyddiwyd gennych i brynu eich eiddo (er enghraifft, symiau a ddefnyddiwyd gennych i brynu car neu dalu dyledion), neu
- unrhyw daliadau cyfalaf ar eich morgais.

Dylech gysylltu â'ch benthyciwr bob amser os ydych yn cael anawsterau i dalu eich morgais. Byddant yn gallu rhoi cyngor a gwybodaeth i chi am yr hyn y gallwch ei wneud.

A oes terfyn ar faint y byddwch yn ei dalu?

Gallwn benderfynu bod eich costau tai yn rhy uchel os bydd:

- eich cartref yn fwy na'r hyn sydd ei angen ar gyfer y bobl sy'n byw yno
- eich cartref mewn ardal ddrutach nag sydd angen iddo fod ynddi, neu
- eich costau tai, fel llog morgais, yn uwch na chost cartref addas arall yn yr ardal.

Er mwyn penderfynu a yw eich costau cartref yn rhy uchel, edrychwn ar:

- gartrefi addas a chostau tai eraill yn yr ardal
- pwy sy'n byw yn eich cartref, eu hoedran a'u hiechyd
- yr effaith y gallai symud i gartref gwahanol ei gael ar addysg unrhyw un o dan 20 oed, ac
- a allech fforddio eich cartref pan symudoch yno gyntaf.

Os byddwn yn penderfynu nad oes angen i chi chwilio am gartref rhatach, ni fydd y rheolau hyn yn effeithio arnoch. Ond os credwn fod eich costau tai yn rhy uchel, efallai y cewch lai o arian. (Bydd hwn yn cynyddu i £175,000 o Ebrill 2009)

Mae cyfyngiadau eraill os gwnaethoch drefnu morgais neu fenthyciad arall tra roeddech yr cael budd-daliadau.

Os ydych yn talu treth cyngor

Beth yw Budd-dal Treth Cyngor?

Mae'n fudd-dal sy'n eich helpu i dalu eich treth cyngor.

Cesglir treth cyngor gan eich cyngor lleol i dalu am y gwasanaethau maent yn eu darparu. Mae pob cyngor yn gosod lefel y dreth cyngor ar gyfer ei ardal. Mae faint o dreth cyngor y byddwch yn ei dalu yn dibynnu ar werth eich cartref.

Fel arfer y person (neu'r bobl) sy'n berchen neu'n rhentu'r cartref sy'n gorfod talu'r dreth cyngor ar ei gyfer.

Mae Budd-dal Treth Cyngor ar gael i bob sy'n talu rhent neu forgais.

Sut y caiff fy Mudd-dal Treth Cyngor ei weithio allan?

Bydd eich cyngor yn edrych ar:

- yr arian a gewch chi a'ch partner (fel enillion, pensiynau, rhai budd-daliadau a chredydau treth), a
- unrhyw gynilion sydd gennych chi a'ch partner.

Hefyd, byddant yn edrych ar:

- eich oedran
- faint o'r bobl sy'n byw gyda chi sydd yn eich teulu a beth yw eu hoedran
- a oes unrhyw aelod o'ch teulu sy'n byw gyda chi yn anabl, ac
- a allai unrhyw un sy'n byw gyda chi helpu gyda'r dreth cyngor.

Yna gall y cyngor lleol weithio allan faint o fudd-dal y gallwch ei gael.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Sut i wneud cais?

Sut y gallaf wneud cais am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor?

Mae 3 ffordd o wneud cais.

1 Os nad ydych yn hawlio unrhyw fudd-dal y wladwriaeth, gofynnwch i'ch cyngor lleol. Byddant yn rhoi'r ffurflenni cais cywir i chi eu cwblhau. Yna bydd angen i chi dychwelyd y ffurflenni atynt.

2 Os ydych am hawlio Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor yn ogystal â:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Budd-dal Analluogrwydd, neu
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth,

cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Gallwn gymryd manylion eich cais am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, ac yna anfon eich cais i'r cyngor ar eich rhan.

3 Os ydych am hawlio Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor yn ogystal â Chredyd Pensiwn, ffoniwch linell gymorth Credyd Pensiwn ar 0800 99 1234.

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith

Ewch i
www.canolfanbyd gwaith.gov.uk
Neu gwelwch y cofnod yn eich Llyfr ffôn

Pryd y dylwn wneud cais?

Dylech wneud cais ar unwaith. Os byddwch yn oedi, gallech golli budd-dal.

Gallwch wneud cais hyd at 13 wythnos cyn bod hawl gennych i gael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor. Os ydych yn

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 26

gwybod eich bod yn symud i lety ar rent yn ystod y 13 wythnos nesaf, gallwch wneud cais am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor. Fodd bynnag, fel arfer ni fyddwch yn cael unrhyw fudd-dal cyn i chi symud i mewn.

Unwaith y byddwch wedi gwneud eich cais, os byddwch yn symud i gyfeiriad newydd, neu os bydd unrhyw wybodaeth arall a roddwyd ar eich ffurflen gais yn newid, dylech ddweud wrth eich cyngor ar unwaith. Os byddwch yn dechrau gweithio'n llawn amser, rhaid i chi ddweud wrth eich cyngor lleol, neu'r Ganolfan Byd Gwaith, os byddwch yn cael budd-daliadau, o fewn 4 wythnos i chi ddechrau gweithio.

A fydd angen i mi roi prawf adnabod?

Os ydych yn hawlio Budd-dal Tai, rhaid i'ch cyngor fod yn siŵr mai chi yw'r person rydych yn honni eich bod. Efallai y bydd angen iddynt eich holi am eich cefndir ac edrych ar unrhyw ddogfennau swyddogol sydd gennych i gadarnhau'r manylion a roddwch.

Ymhlith y dogfennau swyddogol y gallwch eu defnyddio i brofi pwy ydych mae:

- pasbort
- tystysgrif geni lawn neu weithred newid enw
- cerdyn adnabod
- trwydded yrru lawn, a
- trwydded waith neu ddogfennau'r Swyddfa Gartref.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi wneud fy nghais?

Fel arfer bydd eich cyngor yn ymdrin â'ch cais o fewn pythefnos o gael yr holl fanylion sydd eu hangen arnynt gennych. Efallai y byddant yn gofyn i chi am ragor o fanylion. Os ydych yn rhentu gan landlord preifat, dylai'r cyngor dalu eich budd-dal o fewn pythefnos o gael eich cais a'r holl fanylion angenrheidiol.

Os bydd y cyngor yn oedi wrth ymdrin â'ch cais ac nad eich bai chi yw hynny, efallai y gallwch gael taliad ymlaen llaw. Gofynnwch i'ch cyngor am hyn.

Bydd y cyngor yn anfon llythyr atoch yn dweud wrthych os gallwch gael Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor, ac os felly, faint.

Os credwch fod y cyngor wedi gwneud camgymeriad, gallwch ofyn iddynt edrych ar y penderfyniad eto. Mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn mis i gael penderfyniad y cyngor.

Pryd fydd fy nghais yn dechrau?

Budd-dal Tai

- Os ydych eisoes yn rhentu pan fyddwch yn gwneud eich cais, bydd eich budd-dal yn dechrau fel arfer o'r wythnos ar ôl i chi wneud eich cais cyntaf am Fudd-dal Tai (unwaith i'r cyngor benderfynu bod hawl gennych iddo).
- Os byddwch ar fin talu rhent am y tro cyntaf pan fyddwch yn gwneud eich cais am Fudd-dal Tai, bydd eich budd-dal yn cael ei dalu o'r dyddiad y gwnaethoch chi wneud eich cais (unwaith i'r cyngor benderfynu bod hawl gennych iddo).

- Weithiau caiff eich cais am Fudd-dal Tai ei ôl-ddyddio.

Budd-dal Treth Cyngor

- Os mai chi yw'r person sy'n cael bil y dreth gyngor, didynnir eich Budd-dal Treth Cyngor o'ch bil. Ni fyddwch yn cael arian, ond bydd eich bil yn llai.
- Os ydych eisoes wedi talu'r bil cyfan, efallai y cewch ad-daliad neu didynnir eich Budd-dal Treth Cyngor oddi ar eich bil nesaf yn lle hynny.

Faint o fudd-dal y gallaf ei gael?

Y swm mwyaf o Fudd-dal Tai y gallwch ei gael yw'r rhent llawn y gallwn ei ystyried wrth ystyried eich cais. Gallai hyn fod yn llai na'ch rhent gwirioneddol, er enghraifft, os oes person yn eich cartref a allai eich helpu i dalu'r rhent.

Y swm mwyaf o Fudd-dal Treth Cyngor y gallwch ei gael yw eich bil treth cyngor cyfan.

Mae faint a gewch yn dibynnu ar:

- eich incwm, unrhyw gyfalaf arall ac unrhyw gynilion dros £6000
- pwy sy'n byw gyda chi, a
- faint o rent a threth cyngor rydych yn ei dalu ar hyn o bryd.

Efallai na fyddwch yn cael digon o Fudd-dal Tai i gwmpasu'ch rhent llawn. Efallai na fyddwch yn cael digon o Fudd-dal Treth Cyngor i gwmpasu'ch rhent llawn.

Sut i wneud cais am help gyda'ch morgais?

Sut y gallaf wneud cais?

Os ydych yn hawlio:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- y rhan warantedig o Gredyd Pensiwn, neu
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm,

byddwn yn anfon ffurflen atoch. Bydd angen i chi gwblhau rhan o'r ffurflen a'i hanfon at eich benthyciwr morgais er mwyn iddynt gwblhau'r rhannau eraill.

Os oes gennych fenthyciad gwella'r cartref, gallwn ofyn i chi am ragor o wybodaeth.

Os ydych yn talu taliadau gwasanaeth, byddwn yn gofyn i chi ddarparu manylion gan eich landlord neu gwmni rheoli.

Bydd y Ganolfan Byd Gwaith neu'r Gwasanaeth Pensiwn yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth am y broses hon.

Sut y caiff llog fy morgais ei dalu?

Fel arfer caiff llog morgais ei dalu yn uniongyrchol i'ch benthyciwr morgais:

- os ydych yn cael un o'r budd-daliadau a restrir uchod, ac
- os yw'ch benthyciwr yn rhan o'r Cynllun Llog Morgais Uniongyrchol.

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith

Ewch i

www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Neu gwelwch y cofnod yn eich llyfr ffôn

I gysylltu â'r Gwasanaeth Pensiwn

Ewch i

www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk

Neu ffoniwch:
0845 60 60 275

Ffôn testun:
0845 60 60 295

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 26

Os ydych ar fin rhentu cartref newydd

A allaf ganfod faint o Fudd-dal Tai y gallwn ei gael cyn i mi rentu cartref?

I'r rheiny sy'n rhentu gan landlord preifat ac sy'n hawlio am y tro cyntaf, neu sydd wedi symud i'r cyfeiriad preifat newydd hwn, defnyddir cyfrifiad 'Lwfans Tai Lleol' i weithio allan faint o fudd-dal y gallwch ddisgwyl ei gael.

Mae Lwfans Tai Lleol yn ffordd newydd o gyfrifo Budd-dal Tai a seilir ar yr ardal lle rydych yn byw, nifer y preswylwyr yn yr eiddo a maint y teulu. Mae'n sicrhau y bydd tenantiaid sydd ag amgylchiadau tebyg yn yr un ardal yn cael yr un swm o gymorth ariannol ar gyfer eu costau tai.

Bydd hyn yn eich helpu i benderfynu a allwch fforddio symud yno. Cofiwch efallai na fydd unrhyw fudd-dal a gewch yn cwmpasu'r rhent llawn.

Os yw'r rheoliadau Lwfans Tai Lleol yn berthnasol i chi (fel unigolyn sy'n rhentu'n breifat ac yn hawlio am y tro cyntaf neu'n newid cyfeiriad i eiddo preifat) gallai'r budd-dal fod yn fwy na'r rhent mewn rhai achosion.

A allaf gael help gyda'r rhent sydd angen i mi ei dalu ymlaen llaw?

Os oes angen help ar frys arnoch i dalu rhent ymlaen llaw, efallai y gallwch gael Benthyciad Argyfwng.

I gael Benthyciad Argyfwng, mae'n rhaid i chi orfod talu rhent ymlaen llaw i landlord preifat neu gymdeithas tai oherwydd:

- mae eich iechyd a'ch diogelwch chi (neu aelod o'ch cartref) mewn risg a dyma'r unig ffordd o atal hynny, neu
- rhoddir Grant Gofal Cymunedol i chi wrth adael gofal.

Nid oes rhaid eich bod yn cael unrhyw fudd-daliadau i wneud cais am Fenthyciad Argyfwng.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith drwy fynd i www.canolfanbydgwaith.gov.uk, neu gallwch ddod o hyd i'n cyfeiriad a'n rhifau ffôn yn eich llyfr ffôn lleol.

Newidiadau yn eich amgylchiadau

Os bydd eich amgylchiadau yn newid rhaid i chi roi gwybod i'ch cyngor. Gallai swm y budd-dal y mae gennych hawl iddo newid.

Beth os byddaf yn dechrau gweithio neu os bydd fy incwm yn newid?

Os ydych yn cael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, gallech fod yn gymwys o hyd i gael help gyda'ch rhent neu dreth cyngor os byddwch yn dechrau gweithio neu os bydd eich incwm yn newid.

Rhowch wybod i'ch cyngor beth yw eich incwm newydd cyn gynted â phosibl. Yna gallant weithio allan faint o Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor y gallwch ei gael.

Os bydd budd-daliadau eraill a gewch yn dod i ben pan fyddwch yn dechrau gweithio, efallai y gallech barhau i gael Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.

Gallech gael 4 wythnos ychwanegol o Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor os ydych yn cyflawni'r amodau perthnasol.

I gael mwy o wybodaeth ewch i wefan Directgov www.direct.gov.uk/cy ac ewch i'r adran Arian, treth a budd-daliadau.

Beth os wyf yn cael help gyda'm morgais ac yn dechrau gweithio?

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm a'ch bod chi neu'ch partner yn dechrau gwaith llawn amser, efallai y cewch 4 wythnos ychwanegol o fudd-dal tuag at eich costau tai, sy'n cynnwys y llog ar eich morgais neu fenthyciad cymwys arall neu i helpu gyda thaliadau gwasanaeth.

Gellir talu hwn i chi am y 4 wythnos gyntaf ar ôl i chi neu eich partner ddechrau gwaith llawn amser.

Mae gwaith llawn amser yn golygu:

- eich bod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, neu
- mae eich partner yn gweithio o leiaf 24 awr yr wythnos.

Telir y 4 wythnos o barhad budd-dal yn uniongyrchol i chi ac nid i'ch benthyciwr morgais. Nid oes rhaid i chi wneud cais, ond mae angen i chi roi gwybod i ni os ydych ar fin dechrau gwaith llawn amser â thâl.

I gael mwy o wybodaeth ewch i wefan Directgov www.direct.gov.uk/cy ac ewch i'r adran Arian, treth a budd-daliadau.

Beth os byddaf yn dechrau swydd ac na fydd yn gweithio allan?

Os bydd hynny'n digwydd, gallwch wneud 'cais cyflym' os:

- byddwch yn gwneud cais eto o fewn 12 wythnos i'ch Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor ddod i ben
- os byddwch yn gwneud cais am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor unwaith eto ar yr un pryd ag y byddwch yn gwneud cais am Gymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ac
- nad yw unrhyw amgylchiadau eraill wedi newid.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith drwy fynd i www.canolfanbydgwaith.gov.uk neu gallwch ddod o hyd i'n cyfeiriad a'n rhifau ffôn yn eich llyfr ffôn lleol.

Cwestiynau eraill a allai fod gennych

Pa help y gallaf ei gael pan fyddaf yn cael Credyd Pensiwn?

Os byddwch yn cael Credyd Pensiwn, gallwch gael y canlynol hefyd:

- Budd-dal Tai (os ydych yn talu rhent neu filiau ar gyfer gwesty, gwesty bach neu hostel)
- Budd-dal Treth Cyngor i helpu i dalu eich Treth Cyngor, a
- Credyd Pensiwn ychwanegol ar gyfer costau tai eraill (os ydych yn berchennog cartref).

Gallai'r costau tai eraill hyn gynnwys:

- llog ar eich morgais
- llog ar rai benthyciadau ar gyfer gwaith atgyweirio a gwelliannau hanfodol
- llog ar daliadau hurbwrcas (os cawsant eu trefnu i helpu i brynu eiddo)
- rhent tir
- rhai taliadau gwasanaeth, a
- thaliadau ar gyfer pebyll a rhent safle.

Ni fydd unrhyw Gredyd Pensiwn ychwanegol a gewch yn cwmpasu:

- taliadau cyfalaf i ad-dalu'r morgais ei hun
- unrhyw bremiymau i bolisi gwaddol neu bensiwn sy'n gysylltiedig â'ch morgais
- ôl-ddyledion ar y morgais, neu

- unrhyw ran o forgais neu fenthyciad na ddefnyddir ar gyfer y cartref.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â llinell gymorth Credyd Pensiwn ar 0800 99 1234.

Y Deyrnas Unedig (DU)

Sef Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Beth os wyf yn dod i'r DU o dramor?

Dim ond os oes gennych hawl i breswylio (byw) yn y gwledydd canlynol y gallwch gael help gyda chostau tai:

- Y Deyrnas Unedig (DU)
- Gweriniaeth Iwerddon
- Ynys Manaw, neu
- Ynysoedd y Sianel.

Weithiau, gallech gael yr help hwn os oes gennych hawl i breswylio yma ac:

- mae gennych basbort y Swistir neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac rydych wedi bod yn gweithio yn y DU
- rydych yn ffoadur
- rydych wedi cael 'caniatâd arbennig' i ddod i'r DU neu aros yma, neu
- rydych wedi cael 'diogelwch dyngarol' neu 'ganiatâd disgresiwn' i aros yn y DU.

I gael rhagor o wybodaeth am y rheolau hyn, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Mae 'caniatâd arbennig', 'diogelwch dyngarol' a 'chaniatâd disgresiwn' yn fathau o ganiatâd y gall rhai ceiswyr lloches eu cael i aros yn y DU os na roddwyd statws ffoadur iddynt. Cânt eu rhoi gan y Swyddfa Gartref a gallwch gael rhagor o wybodaeth ganddi.

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 26

Beth os wyf yn fyfyriwr?

Ni all y rhan fwyaf o fyfyrwyr hawlio Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor, ond os ydych yn rhiant unigol neu'n anabl, efallai y gallwch wneud hynny. I gael gwybod mwy, gofynnwch i'ch cyngor lleol.

Beth am help gyda chostau gwresogi?

Efallai y bydd gennych hawl i gael help gyda chostau gwresogi neu inswleiddio.

Mae pawb dros 60 oed yn cael Taliad Tanwydd Gaeaf bob blwyddyn yn awtomatig. Mae hwn yn un taliad arian parod i'ch helpu i dalu am gostau gwresogi yn y gaeaf. Mae'r taliad yn ddi-dreth ac nid oes angen i chi fod ar fudd-daliadau.

Yng **Nghymru**, gallai'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref helpu os ydych yn:

- deulu gyda phlant o dan 16 oed
- rhiant unigol gyda phlant o dan 16 oed
- 60 oed neu'n hŷn, neu
- anabl neu mae gennych salwch hirdymor.

Yn **Lloegr**, os ydych ar fudd-daliadau, efallai y gallwch gael help drwy gynllun Ffrynt Cynnes y Llywodraeth. Gall hyn ddarparu amrywiaeth o fesurau effeithlonrwydd ynni a gwresogi.

Yn **yr Alban**, mae'r Rhaglen Gwres Canolog yn gosod gwres canolog ac inswleiddio yng nghartrefi pobl dros 60 oed, tra bod Warm Deal yn rhoi grantiau o hyd at £500 tuag at fesurau arbed ynni.

I gael rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor

Os nad ydych yn hawlio unrhyw fudd-daliadau, ewch i www.direct.gov.uk/cy neu cysylltwch â'ch cyngor lleol.

Os ydych yn hawlio budd-dal, ewch i www.canolfanbydgwaith.gov.uk neu gallwch ddod o hyd i'n cyfeiriad a'n rhifau ffôn yn eich llyfr ffôn lleol.

Os ydych yn cael Credyd Pensiwn:

Ffôn: 0800 99 1234

Ffôn testun: 0845 60 60 285

Gwefan:
www.pensiynau.gov.uk/pensioncredit

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am i 8pm, dydd Sadwrn 9am i 1pm.

Help gyda chostau gwresogi

Cymru

Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref

Ffôn: 0800 316 2815

Gwefan: http://www.heeswales.co.uk/welsh_index.htm

Lloegr

Cysylltwch â Ffrynt Cynnes

Ffôn: 0800 316 6011

Gwefan: www.warmfront.co.uk

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 26

Yr Alban

Y Rhaglen Gwres Canolog

Ffôn: 0800 316 1653

Warm Deal

Ffôn: 0800 072 0150

(Gweithredir y ddau gynllun gan Scottish Gas)

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan Llywodraeth yr Alban www.scotland.gov.uk

Llinell Gymorth Taliad Tanwydd Gaeaf

Mae'n rhoi cyngor ar Daliadau Tanwydd Gaeaf, ac ar wneud ceisiadau eraill

Ffôn: 0845 915 1515

Ffôn testun: 0845 601 5613

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am i 4.30pm

Gwefan:
www.pensiynau.gov.uk/welsh/winterfuel

Costau galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor. O Medi 2008 ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 4c y funud gyda thâl o 7c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau Testun

Mae'r rhifau ffôn tesun a ddarparwn yn rhai ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd siarad neu glywed yn glir.

Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un.

Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw cyffredinol yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Hydref 2008.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

Rydym yn argymell eich bod yn cael cyngor annibynnol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ariannol ar sail y wybodaeth yn y daflen hon.

www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84763-051-3
DWP1015W | f1.0 (Hydref 2008)